

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Adroddiad (SLC(3) 21-09)

**Dyddiad:** 30 Medi 2009  
**Amser:** 9.30  
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### CYNNWYS

---

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 30 Medi 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, William Graham AC a Joyce Watson AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan a Mike German AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)**

**SLC328 - Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009**

Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'i gwnaed yn 2009. Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1.

**Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.3**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC313 - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2009**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Gorffennaf 2009. Fe'u gosodwyd ar 15 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 16 Gorffennaf 2009

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn statudol hwn yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2009 a chanfod pwynt a allai fod yn destun adroddiad gan fod y Rheoliadau yn cynnwys gofyniad i ddefnyddio'r disgrifiadau Saesneg yn unig ar gyfer dŵr mwynol naturiol o dan reoliad 5(2). Roedd y Llywodraeth wedi diystyru'r pwynt adrodd. Nid oedd y Pwyllgor yn fodlon ag ymateb y Llywodraeth a phenderfynodd ohirio ystyried y Rheoliadau hyn tan 30 Medi er mwyn rhoi cyfle i'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi eglurhad pellach.

Fodd bynnag, ar ôl ystyried ymateb diweddaraf y Gweinidog, penderfynodd yr Aelodau fod y pwynt adrodd o dan Reol Sefydlog 15.3 yn dal yn berthnasol (“ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Cynulliad.”). Sylwodd y Pwyllgor fod anghysondeb rhwng cynnwys y Rheoliadau hyn ac ymateb y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol i lythyr y Cadeirydd. Argymhellodd yr Aelodau y dylid atodi’r llythyr at adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau hyn, ac y dylid rhoi gwybod i’r Asiantaeth Safonau Bwyd a chyrrff perthnasol eraill am ei gynnwys.

Mae adroddiad y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.3 ar y Rheoliadau hyn i’w weld yn Atodiad 1; mae’r llythyr gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol i’w weld yn Atodiad 2.

### **Materion eraill**

#### **Ymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Senedd y DU) gan John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau**

Ystyriodd yr Aelodau ymateb John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, i adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu, sef yr ail Fesur gan Senedd y DU i fod yn destun gwaith craffu gan y Pwyllgor. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar y Mesur ym mis Mai 2009.

#### **Y Mesur Arfaethedig Ynghylch Codi Ffioedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru) – sesiwn dystiolaeth gyda Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**

Fel rhan o’r gwaith craffu ar y Mesur Arfaethedig Ynghylch Codi Ffioedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii). (caiff y Pwyllgor ystyried “pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru” a chyhoeddi adroddiad ar hynny), clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog y byddai’n rhoi rhagor o wybodaeth i’r Pwyllgor am y dystiolaeth gan LE Wales. Cytunodd y Pwyllgor y byddai’n ystyried adroddiad drafft mewn perthynas â’r Mesur arfaethedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.

#### **Eitem 5.2 ar yr agenda – Ystyried y dystiolaeth a’r argymhellion cychwynnol ar gyfer adroddiad y Pwyllgor**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod y dystiolaeth a’r argymhellion ar gyfer adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Ynghylch Codi Ffioedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru).

**Janet Ryder AC**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**30 Medi 2009**

## **Atodiad 1**

### **Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-21-09)**

**SLC313**

### **Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Teitl: Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2009**

#### **Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3165 (Cy.276)) ("y prif Reoliadau") a wrth wneud hynny yn gweithredu Cyfarwydddeb 2009/54/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddatblygu a marchnata dŵr mwynol naturiol.

Mae'r rheoliadau hefyd yn cywiro diffygion a nodwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r prif Reoliadau yn ei adroddiad ar 27 Tachwedd 2007. Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor bryd hynny ar 14 Ionawr 2008 yn datgan: "I can confirm that in this instance the amended Regulations will be brought forward early in the New Year, and almost certainly before the end of January 2008." Mewn gwirionedd, ni chafodd y Rheoliadau eu gwneud tan 15 Gorffennaf 2009.

#### **O dan Reol Sefydlog 15.3(ii) gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar sail y canlynol**

"ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad."

Rhoddir Rheoliad 5(2) yn lle rheoliad newydd, sef rheoliad 8(1)(h), yn fersiwn Gymraeg y prif Reoliadau. Mae'r ddarpariaeth hon yn gwahardd rhag defnyddio disgrifiadau heblaw am y rhai a nodir ar gyfer dŵr mwynol naturiol. Caiff y disgrifiadau eu nodi yn Saesneg yn unig yn y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. O ganlyniad, byddai defnyddio term Cymraeg cyfatebol yn torri rheoliad 8, a byddai person sy'n defnyddio disgrifiad o'r fath yn agored i gael eu herlyn ac i ddiryw o hyd at £5,000 o dan reoliad 20 y prif Reoliadau.

**Janet Ryder AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**30 Medi 2009**

## **Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

"Mae'r Llywodraeth yn nodi'r sylwadau am y rheoliad 8(1)(f) newydd, ond gan fod y Rheoliadau hyn wedi'u gwneud yn uniongyrchol o un o Gyfarwyddbau'r UE sydd wedi'i hail-lunio, mae'n credu ei bod yn bosibl o dan Gyfraith yr UE ddefnyddio'r iaith Saesneg yn unig wrth ymdrin â gofynion labelu, ond nad yw'n bosibl defnyddio'r iaith Gymraeg yn unig. Gan fod modd barnu bod yr wybodaeth yn y disgrifiad yn berthynol i iechyd, mae'n bwysig sicrhau bod cymaint o ddefnyddwyr â phosibl (yn ogystal â swyddogion gorfodi) yn deall yr wybodaeth honno. Yn ychwanegol, ni fyddai cynnwys yr hyn sy'n cyfateb yn Gymraeg i'r derminoleg orfodol Saesneg yn rhoi ateb clir, o ran labeli bwyd, i'r defnyddiwr. Gan hynny, nid oes angen diwygio'r Rheoliadau hyn."

Gwenda Thomas AC/AM  
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref – SLC 309  
Ein cyf/Our refxxx

Janet Ryder AM  
Chair  
Subordinate Legislation Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

September 2009

**SLC 313- The Natural Mineral Water, Spring Water and Bottled Drinking Water (Wales) (Amendment) Regulations 2009**

Thank-you for your letter dated 23<sup>rd</sup> September 2009 addressed to the Minister for Health and Social Services regarding the Subordinate Legislation Committee's (SLC) observations with regard to the above legislation. It has been agreed that I will respond on behalf of the Welsh Assembly Government as this subject matter falls within my portfolio.

The SLC has drawn attention to the Regulations under Standing Order 15.3 where the Assembly is invited to pay special attention to an instrument on the grounds:  
"that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Assembly".

The Food Standards Agency in Wales has led on the progress of these Regulations and have been consulted as to the detail of the Regulations and offer the following explanation regarding the textual wording issues highlighted by the SLC in the Welsh version of the SI;

The Regulations were implemented in Wales from the recast EU Directive 2009/54/EC that applies UK wide. The recast Directive was published in the Official Journal on the 26<sup>th</sup> June 2009. It dictates in Article 7 that the sales description shall be "natural mineral water" etc and this is prescribed wording and expressly in the English language and then directly transcribed into the 2009 domestic Regulations.

These 2009 Regulations replicate the above wording of the 2007 Regulations that they amend ,and this is not a new term or form of wording.

The use of the terms ' natural mineral water' etc in the English language are not perceived as contrary to the Welsh language policy nor do they preclude a food business from adding the Welsh text on a label on a voluntary basis in addition to the English terms.

In the Government response of 23 August we previously advised:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400  
Ffacs \* Fax 029 2089 8635  
Correspondence.Gwenda.Thomas@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*

“The Government notes the comments about the new regulation 8(1)(h), but believes that as these Regulations are made directly from a recast EU Directive, it is possible under EU Law to use only the English language when dealing with labelling requirements, but not possible to use only the Welsh language. As the information in the description may be viewed as being health related, it is important to ensure that as many consumers as possible (as well as enforcement officers) understand that information. In addition, the inclusion of the Welsh language equivalents to the mandatory English language terminology would not provide a clear food label solution for the consumer. Therefore these Regulations do not require amendment.”

It should be noted that the Welsh language version of the Regulations quotes the terms ‘natural spring water’ etc in the English language, but further to the above comment they could be included on the label in Welsh, in addition if commercially desirable, but not instead of English text. The Food Standards Agency did not prescribe bilingual labelling, as two sets of wording could lead to small font size on a relatively small label, which many consumers may not be able to read. As previously commented, the descriptions may be associated with health related issues and so should ensure as many consumers and enforcement authorities as possible understand the label information. Such bottled water may also be used in the use of infant formula.

Yours sincerely

**Gwenda Thomas AC/AM**

